# RHESTR O WELLIANNAU WEDI'U DIDOLI
# MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

## Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru)
## Wild Animals and Circuses (Wales) Bill

Mae'r gwelliannau â * ar eu pwys yn rhai newydd neu'n rhai sydd wedi'u haddasu
Amendments marked * are new or have been altered

Mae gwelliannau a nodir ag 'R' yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2 neu fuddiant perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13 neu 17 wrth gyflwyno'r gwelliant.
Amendments marked 'R' mean that the Member has declared either a registrable interest under Standing Order 2 or relevant interest under Standing Orders 13 or 17 when tabling the amendment.

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn—
The Bill will be considered in the following order—

| | |
|---|---|
| Sections 1 - 13 | Adrannau 1 - 13 |
| Schedule | Atodlen |
| Long Title | Teitl Hir |

**Llyr Gruffydd** **1**

Section 1, page 1, after line 11, insert—

'( ) travels with the travelling circus,'.

Adran 1, tudalen 1, ar ôl llinell 11, mewnosoder—

'( ) yn teithio gyda'r syrcas deithiol,'.

**Andrew RT Davies** **3**

Section 1, page 1, after line 11, insert—

'( ) is trained,'.

Adran 1, tudalen 1, ar ôl llinell 11, mewnosoder—

Senedd Cymru
Welsh Parliament

‘( ) wedi’i hyfforddi,’.

**Llyr Gruffydd** **2**

Section 12, page 4, line 30, leave out ‘This Act’ and insert—

‘( ) Except for section 1(2)(*[paragraph to be inserted by amendment 1]*) of this Act, all provisions come into force at the end of the period of two months beginning on the day on which this Act receives Royal Assent.

( ) Section 1(2)([*paragraph to be inserted by amendment 1]*)’.

Adran 12, tudalen 4, llinell 32, hepgorer ‘Daw’r Ddeddf hon’ a mewnosoder—

‘( ) Ac eithrio adran 1(2)(*[y paragraff sydd i’w fewnosod gan welliant 1]*) o’r Ddeddf hon, daw pob un o’r darpariaethau i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis gan ddechrau ar y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

( ) Daw adran 1(2)(*[y paragraff sydd i’w fewnosod gan welliant 1]*)’.

**Andrew RT Davies** **4**

Schedule, page 7, line 17, after ‘animal’, insert ‘, subject to paragraph *[paragraph to be inserted by amendment 6]*’.

Atodlen, tudalen 7, llinell 17, ar ôl ‘anifail’, mewnosoder ‘, yn ddarostyngedig i baragraff *[y paragraff sydd i’w fewnosod gan welliant 6]*’.

**Andrew RT Davies** **5**

Schedule, page 7, line 21, after ‘animal’, insert ‘, subject to paragraph *[paragraph to be inserted by amendment 6]*’.

Atodlen, tudalen 7, llinell 21, ar ôl ‘anifail’, mewnosoder ‘, yn ddarostyngedig i baragraff *[y paragraff sydd i’w fewnosod gan welliant 6]*’.

**Andrew RT Davies** **6**

Schedule, page 7, after line 35, insert—

‘[ ] When exercising a power of entry, an inspector may only examine, measure, test or take a sample from an animal that is found on the premises (in accordance with paragraph 9(b) or (e)) if they are suitably trained.’.

Atodlen, tudalen 7, ar ôl llinell 36, mewnosoder—

‘[ ] Wrth arfer pŵer mynediad, ni chaiff arolygydd ond archwilio, mesur, profi neu gymryd sampl o anifail a ganfyddir yn y fangre (yn unol â pharagraff 9(b) neu (e)) os yw wedi’i hyfforddi’n briodol.’.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Andrew RT Davies** **7**

Schedule, page 7, line 38, after 'inspector', insert ', subject to paragraph *[paragraph to be inserted by amendment 8]*'.

Atodlen, tudalen 7, llinell 38, ar ôl 'arolygydd' yn yr ail le y mae'n ymddangos, mewnosoder ', yn ddarostyngedig i baragraff *[y paragraff sydd i'w fewnosod gan welliant 8]*'.

**Andrew RT Davies** **8**

Schedule, page 7, after line 38, insert—

'[ ] A person taken onto the premises in accordance with paragraph 8(a) may only—

(a) examine, measure or test an animal that is found on the premises;

(b) take a sample from an animal

if they are a suitably trained.'.

Atodlen, tudalen 7, ar ôl llinell 38, mewnosoder—

'[ ] Ni chaiff person yr eir ag ef i'r fangre yn unol â pharagraff 8(a) ond —

(a) archwilio, mesur neu brofi anifail a ganfyddir yn y fangre;

(b) cymryd sampl o anifail

os yw wedi'i hyfforddi'n briodol.'.

**Andrew RT Davies** **9**

Schedule, page 7, after line 38, insert—

'[ ] (1) A person is suitably trained for the purposes of this Schedule if they are a veterinary surgeon or a person listed in regulations made under this paragraph with an appropriate level of expertise in the health and welfare requirements of animals on the premises.

(2) The Welsh Ministers must specify in regulations one or more categories of persons who are to be regarded as being suitably trained for the purposes of this Schedule.

(3) Regulations made under this paragraph may make different provision for different animals.'.

Atodlen, tudalen 7, ar ôl llinell 38, mewnosoder—

'[ ] (1) Mae person wedi'i hyfforddi'n addas at ddibenion yr Atodlen hon os yw'n filfeddyg neu'n berson a restrir yn y rheoliadau a wneir o dan y paragraff hwn a chanddo lefel briodol o arbenigedd mewn anghenion iechyd a lles anifeiliaid sydd yn y fangre.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru bennu mewn rheoliadau un neu ragor o gategorïau o bersonau y'u hystyrir yn bersonau sydd wedi'u hyfforddi'n addas at ddibenion yr Atodlen hon.

(3) Caiff rheoliadau a wneir o dan y paragraff hwn wneud darpariaeth wahanol ar gyfer anifeiliaid gwahanol.'.